

Cyfarfod Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd

Cofnodion cyfarfod cyhoeddus Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau 28 Mawrth 2024 fel cyfarfod rhithwir a ddarllwyd yn fyw drwy Zoom.

 10:00 - 13:50

 28 Mawrth 2024

Aelodau'n Bresennol	Llythrennau Cyntaf	Teitl	Sefydliad
Simon Jones	SJ	Cadeirydd y Bwrdd	IGDC
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC
Andrew Fletcher	AF	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd - Undeb Llafur	IGDC
Ruth Glazzard	RG	Is-gadeirydd y Bwrdd	IGDC
Rhidian Hurle	RH	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	IGDC
Marian Wyn Jones	MWJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Marilyn Bryan Jones	MBJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	IGDC
Alistair Klaas Neill	AKN	Aelod Annibynnol	IGDC
Claire Osmundsen-Little	COL	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol / Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	IGDC
David Selway	DS	Aelod Annibynnol	IGDC
Helen Thomas	HT	Prif Swyddog Gweithredol	IGDC

Yn bresennol	Llythrennau Cyntaf	Teitl	Sefydliad
Nathan Couch	NC	Arweinydd Archwilio (Perfformiad) - Ar gyfer eitem 5.1	Archwilio Cymru
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC

Darren Griffiths	DG	Rheolwr Archwilio (Perfformiad) – Ar gyfer eitem 5.1	Archwilio Cymru
Sam Hall	SH	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	IGDC
Nerys Hurford	SW	Cyfieithydd	Gwasanaethau Cyfieithu
Carys Richards	CR	Rheolwr Cymorth Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	IGDC
Sarah-Jane Taylor	SJT	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	IGDC

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Rowan Gardner	Aelod Annibynnol	IGDC

Acronymau

IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig
CEO	Prif Swyddog Gweithredol	DPIF	Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol
IM	Aelod Annibynnol	CTCI	Cynllun Tymor Canolig Integredig
IOPR	Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig	WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
LLC	Llywodraeth Cymru	PDC	Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni
NDR	Adnodd Data Cenedlaethol	DG&S	Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	RISP	Caffael y System Gwybodeg Radioleg
DPIF	Cyllid Blaenoriaeth Buddsoddiad Digidol	DMTP	Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol
EDI	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	FBA	Cyllid a Sicrwydd Busnes
MOU	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth	SRG	Grŵp Adnoddau Strategol

Rhif yr Eitem	Manylion yr Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	<p>Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb yn ddwyieithog i gyfarfod Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig (AIA) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC).</p> <p>Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw drwy Zoom. Yn ogystal, byddai'r recordiad ar gael drwy wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer unrhyw un nad oedd yn gallu cael mynediad i'r cyfarfod yn fyw. Roedd platfform Zoom yn cael ei ddefnyddio er mwyn caniatáu i aelodau fod yn weladwy trwy gydol y cyfarfod ac i gyfieithu ar y pryd ddigwydd, gan ganiatáu i aelodau gymryd rhan yn y cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg.</p> <p>Darparodd y Cadeirydd hysbysiadau trefniadaeth ynghylch agweddau technegol ffrydio byw'r cyfarfod, y seibiannau a gynlluniwyd, a'r defnydd o'r agenda gydsynio ar gyfer eitemau 2.1 i 2.12.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau gan:</p> <p>Rowan Gardner - Aelod Annibynnol</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 2 - AGENDA GYDSYNIO - I'W CHYMERADWYO A'I NODI			
2.1	<p>Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Bwrdd 25 Ionawr 2024</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024.</p>	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	<p>Cofnodion Cryno Preifat Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Bwrdd 25 Ionawr 2024</p> <p>Nodwyd nad oedd angen i'r Cadeirydd weithredu o ran Cytundeb Datrysiadau Adran Achosion Brys Cymru.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO cofnodion cryno cyfarfod y Bwrdd Preifat a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024.</p>	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.3	Cofnod Gweithredu	Nodwyd	Dim i'w

	Roedd un cam gweithredu ar y gweill ar y Cofnod Gweithredu. Penderfynodd y Bwrdd: NODI'R cofnod gweithredu.		nodi
2.4	Blaengynllun Gwaith Penderfynodd y Bwrdd: NODI'R Blaengynllun Gwaith.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.5	Adolygiad Blynyddol o'r Rheolau Sefydlog Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO'R Rheolau Sefydlog.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.6	Cylch Busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO Cylch Busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.7	Hunan-effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Penderfynodd y Bwrdd: NODI adborth Arolwg Hunan-effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.8	Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO'R Adroddiad Blynyddol Cynllunio Argyfwng.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.9	Amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO datganiad Amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.10	Ymateb Dilynol IGDC i Adroddiad Craffu Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru Penderfynodd y Bwrdd: NODI Ymateb Dilynol IGDC i Adroddiad Craffu Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.11	Siarter Rhianta Corfforaethol Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO bod y Bwrdd Corfforaethol yn llofnodi'r Siarter Rhianta	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.12	Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio IGDC 2024 - 27 Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio IGDC 2024 - 27.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

PRIF AGENDA

RHAN 3 - I'W HADOLYGU

<p>3.1</p>	<p>Adroddiad y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd</p> <p>Amlinellodd y Cadeirydd yr uchafbwyntiau canlynol o'r adroddiad:</p> <p>Diweddariad ar Drefniadau Llywodraethu Rhaglenni</p> <p>Yn dilyn diweddariadau blaenorol i'r Bwrdd, mae'n debygol mai hwn fydd y diweddariad olaf ar y pwnc hwn, gan fod y cytundeb gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu rhaglenni diwygiedig yn eu lle ar gyfer pob rhaglen o 1 Ebrill 2024. Roedd y Cadeirydd yn falch o adrodd bod trefniadau newydd wedi bod yn ymwreiddio dros y chwe mis diwethaf a bydd y maes rhaglen mawr diwethaf: Meddyginiaethau Digidol, yn trosglwyddo i'r trefniadau newydd o 1 Ebrill 2024.</p> <p>Cyfarfu'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni yn ffurfiol ar 9 Tachwedd 2023, a 6 Chwefror 2024 a bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ar 14 Mai 2024. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n sicrhau bod gwaith y Pwyllgor newydd hwn yn cael ei asesu/ystyried gan bartneriaid rheoleiddio IGDC dros y deuddeg mis nesaf.</p> <p>Datblygu'r Bwrdd, 29 Chwefror 2024</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd fod fformat newydd o Ddiwrnodau Datblygu Bwrdd wyneb yn wyneb yn unig yn cael ei gynnal ar 29 Chwefror ac yn cynnwys sesiwn sbotolau tîm. Roedd y sesiwn sbotolau tîm gydag aelodau o dîm y Cofnod Sengl, a diolchodd y Cadeirydd am y cyflwyniad a'r amser a gymerwyd i drafod y cyfleoedd, y materion a'r heriau y mae'r tîm yn eu hwynebu.</p> <p>Dechreuodd y diwrnod gyda ffocws a thrafodaeth ardderchog ar rôl IGDC mewn perthynas â gofal a sut rydym yn symud y ffocws o wasanaethau mewn ysbytai i gefnogi cymunedau sy'n grymuso dinasyddion. Yn y prynhawn derbyniodd y Bwrdd ddiweddariadau ar ddatblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig a Strategaeth Hirdymor IGDC gan gynnwys adborth rhanddeiliaid a dderbyniwyd hyd yma ar y strategaeth. Yn olaf, daeth y diwrnod i ben gyda diweddariad ar y gwaith i symud IGDC i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar gynnyrch.</p> <p>Diweddariad Aelod Annibynnol</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cytuno â Rowan Gardner - Aelod Annibynnol, oherwydd newid yn ei hamgylchiadau proffesiynol, y byddai Rowan yn camu'n ôl o'i dyletswyddau fel aelod o Fwrdd IGDC am gyfnod byr. O ganlyniad i hyn, ac yn dilyn adolygiad deuddeg mis o amcanion gan Aelodau Annibynnol, Marian Wyn Jones fydd yn cymryd lle Rowan Gardner fel un o dri chynrychiolydd IGDC ar Rwydwaith Aelodau Digidol Annibynnol Cymru Gyfan wrth symud ymlaen. Yn ogystal, am gyfnod byr mae'r Cadeirydd yn dweud y byddai'n mynychu cyfarfodydd y Comisiwn Deallusrwydd Artiffisial a arweinir gan Lywodraeth Cymru ar ran Rowan.</p> <p>Cyfarfod â Choleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr ar 18</p>	<p>Derbyniwyd a Thrafodwyd</p> <p>Yn ogystal, cymeradwywyd y Sêl Gyffredin</p>	<p>Dim i'w nodi</p>
------------	---	--	---------------------

	<p>Mawrth 2024</p> <p>Yn dilyn cais gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ymuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyfarfod y Coleg Brenhinol ar 18 Mawrth 2024. Roedd y cyfarfod i drafod systemau atgyfeirio cleifion rhyngweithredol, wedi'u hategu gan system cofnodion cleifion electronig integredig. Cymerodd IGDC gyfrifoldeb am y Rhaglen Ddigidol Gofal Llygaid o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ym mis Mehefin 2023.</p> <p>Rhaglen Cysgodi Swyddi Aelodau'r Bwrdd</p> <p>Roedd y Cadeirydd yn falch o ddweud bod IGDC wedi llwyddo i gael ei ddewis i fod yn rhan o gynllun peilot rhaglen cysgodi swyddi aelodau Bwrdd GIG Cymru. Felly, byddai aelodau'r Bwrdd yn gweithio'n agos dros y misoedd nesaf gyda'n Mentorai, Diana Stora, i sicrhau bod ganddi'r cyfle gorau i weld a dysgu sut mae IGDC yn gweithredu a rôl aelod o'r Bwrdd.</p> <p>Sêl Gyffredin</p> <p>Gofynnwyd i'r Bwrdd gadarnhau'r defnydd o'r sêl gyffredin a ddefnyddiwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithred rhwng Second Horizon Limited ac IGDC yn ymwneud â'r brydles yn Swyddfa IGDC, Uned 17 Parc Bocam, Heol Oldfield, Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 5LJ. <p>Cymeradwyodd y Bwrdd yr estyniad i'r brydles (estyniad am 5 mlynedd gyda chymal terfynu o 3 blynedd) yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024 a llofnodwyd y weithred gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol ar 28 Mawrth 2024.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN cynnwys adroddiad y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a CHYMERADWYO'R defnydd o'r Sêl Gyffredin.</p>		
3.2	<p>Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol</p> <p>Darparodd Helen Thomas (HT), Prif Swyddog Gweithredol, yr uchafbwyntiau canlynol o'r adroddiad:</p> <p>Briffio Staff</p> <p>Bu dau Gyfarfod Briffio Staff ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, Yn y cyfarfodydd briffio rydym yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> rhannu canfyddiadau o Arolwg Staff IGDC; trafod ein Hamcanion Strategol sydd wedi'u cynnwys yn ein Strategaeth Hirdymor; lansio gwobrau cydnabod staff IGDC; Wedi rhannu ein CTCI 2024-27; Trafodwyd Dylunio Canolfannau Defnyddwyr yn IGDC; <p>Yn ogystal â'r uchafbwyntiau arferol o waith y Bwrdd Rheoli a Bwrdd AIA a diweddariadau staff cyffredinol. Diolchodd HT i</p>	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

	<p>bawb a ymunodd ac a gymerodd ran ar y ddau achlysur.</p> <p>CTCI 2024/25</p> <p>Diolchodd HT i'r staff am eu rhan yn CTCI y flwyddyn nesaf. Nodwyd bod y cynnydd o 3.67% yn y dyraniad craidd, a oedd yn unol â'r Byrddau lechyd, wedi'i dderbyn ac roedd IGDC yn gallu llunio cynllun cytbwys. Fodd bynnag, byddai gostyngiad sylweddol yn y dyraniad DPIF felly roedd IGDC yn archwilio cyfleoedd ar draws y system Gofal lechyd a chyda LLC o ran cyfleoedd ariannu ychwanegol.</p> <p>Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth IGDC</p> <p>Cynhaliwyd ail ddigwyddiad bord gron ein Rhaglen Uwch Arweinyddiaeth Cronfa'r Brenin ar 8 Chwefror. Yn ogystal, rhoddodd HT wybod i'r Bwrdd am ddigwyddiad wyneb yn wyneb ar 27 Chwefror lle trafodwyd arddulliau, gwerthoedd ac ymddygiadau arweinyddiaeth ar draws y sefydliad.</p> <p>O ran Arolwg Staff GIG Cymru, nodwyd bod gan IGDC gyfradd ymateb o 60%, sgôr ymgysylltu o 82%, yr uchaf ar draws sefydliadau ledled Cymru, gyda'r manylion yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd Bwrdd yn y dyfodol o ran gwelliannau ar ôl iddynt gael eu hystyried a'u datblygu yn gynlluniau gweithredu.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN a THRAFOD cynnwys adroddiad y Prif Weithredwr.</p>		
--	--	--	--

RHAN 4 – EITEMAU STRATEGOL

4.1	<p>Strategaeth Hirdymor IGDC</p> <p>Cyflwynodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (IE), yr adroddiad gan nodi, yn dilyn cymeradwyo Strategaeth Ddrafft y Sefydliad yn y Bwrdd AIA ym mis Ionawr, y cynhaliwyd ymarfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gasglu adborth ar y Strategaeth Ddrafft gan ein pobl, ein partneriaid, ein rhanddeiliaid. a'r cyhoedd yn ehangach.</p> <p>Roedd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffurflen adborth ar-lein, sy'n agored i unrhyw un roi barn a sylwadau dienw ar y strategaeth ddrafft gyhoeddedig • Cyfres o weminarau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, sy'n agored i holl staff y GIG ac i bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, a oedd yn cynnwys cyflwyniad, cwestiynau ac atebion, a thrafodaeth • Cynnig i uwch arweinwyr gyfrannu adborth ar sail 1:1 • Sesiynau ymgysylltu gyda staff IGDC a oedd yn cynnwys cyflwyniad, cwestiynau ac atebion, a thrafodaeth <p>Roedd yr ymgysylltu ar y strategaeth ddrafft ar agor am fis, o 5 Chwefror i 6 Mawrth. Hyrwyddodd IGDC gyfleoedd i ymgysylltu trwy gyfathrebu uniongyrchol, rhwydweithiau, a sianeli cyhoeddus, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Ochr yn ochr â'r gweithgaredd ymgysylltu, cyhoeddodd IGDC bostiadau blog a diweddariadau eraill, ac ymgysylltodd IGDC â Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd y Rhaglen DSPP.</p>	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
-----	--	--------------	--------------

	<p>Yn ystod ac ar ôl y gweithgaredd ymgysylltu, dadansoddodd IGDC themâu, teimladau a negeseuon allweddol, a threfnodd sylwadau penodol i gefnogi'r adolygiad o'r strategaeth ddrafft.</p> <p>Newidiadau allweddol i'r strategaeth ddrafft</p> <p>Roedd IGDC wedi olrhain pob un o'r sylwadau a'r awgrymiadau ac wedi adlewyrchu ar y teimlad a'r adborth a dderbyniwyd ac mae'r dadansoddiad wedi'i rannu â'r tîm Gweithredol a'i drafod mewn Diwrnod Datblygu Bwrdd.</p> <p>Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Diben, Gweledigaeth, Cenhadaeth na'r Egwyddorion, a chymeradwywyd pob un ohonynt yn gryf yn yr adborth a dderbyniwyd.</p> <p>Roedd rhai mân newidiadau wedi'u gwneud i eiriad rhai o'r amcanion strategol ac ychwanegwyd dau amcan newydd, yn seiliedig ar y sylwadau a dderbyniwyd, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcan ychwanegol yng Nghenhadaeth 1: Sefydlu fframwaith Cymru gyfan ar gyfer rhannu data iechyd a gofal cymdeithasol • Amcan ychwanegol yng Nghenhadaeth 4: Defnyddio deallusrwydd artiffisial a thechnolegau awtomeiddio, yn ddiogel ac yn foesebol, gan sicrhau gwelliannau blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn effeithlonrwydd a chynhyrchiant ar draws GIG Cymru <p>Gwnaed yr arsylwadau canlynol:</p> <p>Diolchwyd i'r tîm ac i randdeiliaid am eu gwaith a'u mewnbwn dros y 9 mis o ddatblygu'r strategaeth;</p> <p>Strwythur clir a glân y strategaeth derfynol, gan nodi pwrpas a'r cynllun i gyflawni hyn gan gynnwys rhai nodau uchelgeisiol iawn;</p> <p>Y gwaith agos rhwng strategaeth a chyllid wrth ddefnyddio buddion i bennu gwerth a chreu disgyblaeth gryfach ar draws y sefydliad cyfan;</p> <p>Amlinellu cyfeiriad cryf gydag amcanion yn cael eu holrhain drwy'r CTCL, gyda diweddariadau ar gynnydd yn erbyn yr ugain amcan i'w dwyn yn ôl yn flynyddol o ran ein hasesiad;</p> <p>Croesawu'r ychwanegiad o sefydlu fframwaith Cymru gyfan a chynnwys y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial ac awtomeiddio;</p> <p>Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial bosibl, sut y caiff ei defnyddio ar draws GIG Cymru, gan weithio'n agos gyda LLC i gynllunio a llywio adnoddau a'r effaith, gan lywio gyda Phartneriaid y GIG hefyd;</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO Strategaeth Hirdymor IGDC.</p>		
4.2	<p>Adroddiad Cyllid</p> <p>Cyflwynodd COL yr adroddiad cyllid ar gyfer y cyfnod yn diweddu 29 Ionawr 2024 gan nodi bod gan IGDC hyder uchel i gyrraedd ei dargedau ariannol statudol. Mae'r sefyllfa diwedd</p>	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

blwyddyn yn cael ei rheoli i sicrhau canlyniad cytbwys ac y gellir ymdopi â phwysau sy'n ymwneud â chefnogi mudo'r ganolfan ddata.

Mae'r uchafbwyntiau perfformiad ar gyfer y cyfnod hyd at 29 Chwefror yn erbyn mesurau cyllid allweddol fel a ganlyn:

- Refeniw: Mae IGDC yn nodi tanwariant refeniw o £0.116m o adennill costau ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Hydref; Er bod cyflogau'n parhau i fod ar ei hôl hi o ran gwariant a broffiliwyd oherwydd oedi recriwtio, caiff hyn ei wrthbwysu'n sylweddol gan gynnydd mewn gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau wrth i IGDC barhau i sicrhau capasiti drwy gyflenwyr trydydd parti, rhaglenni carlam fel gweithgarwch parodrwydd dull Cwmwl a Chynnyrch a chymorth mewnol i'r mudo canolfan ddata.
 - COVID-19: Derbyniodd IGDC £7.4m o gyllid a'r gwariant hyd yma yw £5.8m.
 - Cronfa Buddsoddi â Blaenoriaeth Ddigidol: Rhagwelir cyfanswm o £33.554m mewn cyllid refeniw gyda gwariant presennol o £29.440m. Mae'r cynnydd mawr yng nghyfradd rhedeg gwariant mis Mawrth yn sylweddol o ganlyniad i gyflawniadau cerrig milltir cyflenwyr trydydd parti a threuliau i sefydliadau eraill GIG Cymru mewn cynlluniau NDR, DSPP, DMTP.
- PSPP: Polisi Taliadau Sector Cyhoeddus targed: roedd y targed wedi cael ei ragori gyda 97% o anfonebau nad ydynt yn rhan o'r GIG yn cael eu talu o fewn 30 niwrnod;
- Arian parod: Mae gan IGDC falans arian parod o £4.9m ar 29 Chwefror. Mae'r balans wedi cynyddu ers mis Ionawr i baratoi ar gyfer gwariant diwedd blwyddyn ym mis Mawrth.
- Cyfalaf: Mae gwariant hyd at gyfansymiau mis Chwefror yn £16.440m yn erbyn CRL o £17.888m. Tanwariant o £0.017m yn erbyn y cynllun cyfnod a balans gwariant gweddilliol o £1.448m (8%) i'w gwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

Nodwyd datblygiadau ers Bwrdd mis Tachwedd fel a ganlyn:

- Cyllid DPIF a COVID: Yn ystod mis Ionawr, cadarnhawyd bod sefyllfa gyllido DPIF a COVID bellach wedi'u pennu'n derfynol ar gyfer 2023/24, gyda'r canlyniad y bydd yn ofynnol yn awr i IGDC reoli unrhyw orwariant neu danwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol gan drosglwyddo risg ariannol ar gyfer y flwyddyn i bob pwrpas.
- Rhaglen Gofal Llygaid Digidol: Mae cynnig buddsoddi digidol bellach wedi'i ddrافتio. Bwriad y papur yw rhoi digon o wybodaeth i LLC i benderfynu ar ei llwybr dewisol ar gyfer dyfodol y Rhaglen. Fel rhan o ymgysylltu ehangach mae pob Bwrdd Iechyd wedi cyfrannu at y

cynllun ariannol drwy nodi a chytuno ar set gyffredin o adnoddau ar draws pob sefydliad. Rhagwelir y bydd y papur yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth.

- Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd (Ap y GIG): Mae achos busnes wedi'i ddrafftio i ategu'r cais am ddarpariaeth ariannu barhaus i gefnogi gweithrediad Ap GIG Cymru yn barhaus. Bydd yr achos yn cael ei gyflwyno ddiwedd mis Mawrth i Lywodraeth Cymru ei ystyried.
- Trosglwyddo Canolfan Ddata: O ganlyniad i gyfyngiad mawr, mae'r amserlenni ar gyfer y mudo wedi'u gwthio i fis Mawrth, mae'r mis hwn hefyd wedi bod yn hynod heriol gydag oedi wrth osod y datrysiaid ffibr llwyd (gan effeithio ar y llwybr critigol ar gyfer gweithgarwch rhwydweithio) oherwydd cyfyngiadau adnoddau gan gyflenwr trydydd parti a streiciau'r meddygon iau yn achosi oedi. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i benderfynu a fydd hyn yn effeithio ar weithgarwch yn y flwyddyn ariannol newydd. Mae'r amlygiad posibl presennol tua £0.2m mewn llithriad, a all fod angen ei reoli.
- Cyfrifon Diwedd y Flwyddyn: Mae amserlen a thempledi cyfrifon diwedd y flwyddyn terfynol bellach wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol gyda'r dyddiadau terfynol wedi'u hymgorffori o fewn llinellau amser y cynllun cyflawni. Mae dyddiadau allweddol yn cynnwys:
 - 02/05/24: Sefyllfa Ariannol Diwrnod 9 Derfynol wedi'i chyflwyno i LLC.
 - 03/05/24: Cyfrifon Drafft wedi'u Cyflwyno i LLC.
 - 15/07/24: Cyfrifon Terfynol wedi'u cyflwyno i LLC gan Archwilio Cymru.

Bydd yr adolygiadau llywodraethu a sicrwydd priodol yn cael eu trefnu i fodloni'r amserlenni hyn.

- Trosolwg o Gynllun Ariannol 2024/25: Mae IGDC wedi sefydlu ei gynllun ariannol ar gyfer tymor y CTCl. Mae'n trosi'r amcanion, y gweithgaredd a'r gofynion adnoddau canlyniadol i ffurfio rhagolwg cwbl integredig.
- Tybiaethau ariannu a ymgorfforir yn y cynllun: Ar gyfer 2024/25 rhagwelir yr incwm canlynol gan Lywodraeth Cymru:
 - Yn ystod y mis mae IGDC wedi derbyn cadarnhad o'i gyllid reffeniw Craidd (cyfanswm o £88.3m) ar gyfer:

Gweithrediadau Craidd AIA	£53.6m
Dibrisiant	£8.1m
Gwasanaethau Digidol COVID	£7.4m
Gofal Sylfaenol - Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg	£19.2m

Rhagwelir hefyd arian refeniw canolog cylchol pellach o ddyfarniad cyflog 2023/24 (cyfanswm o £2.8m). Mae cyfalaf dewisol gwerth £2.9m hefyd wedi'i gadarnhau'n ffurfiol.

- o Ar hyn o bryd mae Cyllid DPIF yn parhau i fod heb ei gadarnhau'n ffurfiol, fodd bynnag rhagwelir y bydd cyfanswm rheolaeth refeniw o £28m yn cael ei rannu (yn sylweddol llai na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol) wedi'i gefnogi gan gyfalaf o £18.2m.

I gefnogi gwasanaethau gweithredol a buddsoddiadau digidol, rhagwelir yr incwm canlynol (cyfanswm o £48.9m) drwy sefydliadau GIG Cymru:

CLG/Arall £16.6m

Trwyddedu Digidol Cymru Gyfan
£30.1m

Cyfraniadau Buddsoddi Digidol y GIG £2.2m

- Tybiaethau gwariant: Mae costau ychwanegol wedi'u hymgorffori yn y pwysau a ragwelir o ganlyniad i'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau newydd o ganlyniad i fuddsoddiad digidol wedi'i gwblhau, chwyddiant cyffredinol (wedi'i briodoli wrth ystyried rhagolwg BoE) yn ogystal â phwysau a thwf costau digidol sy'n benodol i'r sector.
- Camau lliniarol i adennill costau: Er mwyn gwrthbwysu pwysau costau cynllunio a nodwyd, mae IGDC wedi nodi targed arbedion i'w gyflawni drwy raglenni gwella costau rheolaidd ar lefel cyfarwyddiaethau. Yn arwain at ofyniad arbedion o £5.8m dros y tymor cynllunio (£1.5m yn 24/25, £2.0m yn 25/26 a £2.3m yn 2026/27 yn y drefn honno) er mwyn adennill costau.

O ran y dull o ymdrin â phroses cynllunio ariannol 2024/25, nodwyd y materion allweddol fel a ganlyn:

- Cynllun Ariannol CTCl: Mae IGDC wedi cynhyrchu cynllun cytbwys ar gyfer y tymor, fodd bynnag mae'r ffocws dros gyfnod y CTCl yn parhau ar weithredu model ariannu diwygiedig sy'n cefnogi modelau darparu gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol a thwf tra'n sefydlu ffrwd waith "Dod o Hyd i Fwy o Werth" mewnol i nodi a gweithredu mentrau strategol er mwyn cynyddu effeithlonrwydd, osgoi costau a chynhyrchu arbedion rheolaidd ar gyfer y sefydliad a'r system gyfan.
- Cyllid DPIF: Mae ansicrwydd diweddar ynghylch lefel y cyllid buddsoddi wedi golygu bod angen asesiadau effaith manwl. Mae'r CTCl yn gosod y dull o reoli'r ansicrwydd hwn a allai olygu bod angen ailadrodd y cynllun ariannol sylfaenol ymhellach.
- Cyllid cynaliadwy: Mae IGDC yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru i gynhyrchu briff polisi sy'n nodi'r

	<p>cefndir (gan gynnwys yr heriau presennol), opsiynau ac argymhelliad ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau presennol. Yn benodol, bydd hyn yn archwilio sut mae IGDC yn cael ei ariannu i gynnal a darparu gwasanaethau digidol Cymru gyfan, megis Ap GIG Cymru, yr Adnodd Data Cenedlaethol, a'r Datrysiaid Gwybodeg Canser ochr yn ochr â model optimaidd i gefnogi gweithgarwch buddsoddi digidol effeithiol. Mae IGDC yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr pwnc allanol i lywio briff y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei lunio ar gyfer ystyriaeth Weinidogol.</p> <ul style="list-style-type: none"> TAW Microsoft O365: Mae arweinwyr cyllid IGDC mewn cysylltiad wythnosol â'n hymgyngorwyr TAW ar ôl i'r hawliad gael ei uwchgyfeirio'n ddiweddar i dîm polisi mewnol CThEF. O ran amseru, ni ddisgwylir o hyd y bydd CThEF yn dod yn ôl gyda dyfarniad y flwyddyn ariannol hon gan fod nifer sylweddol o randdeiliaid yn ymwneud â'u timau mewnol o hyd sydd angen eu cymeradwyo. <p>Gwnaed y sylwadau a ganlyn ar y sefyllfa bresennol:</p> <p>Roedd prosesau recriwtio'n cael eu craffu'n wahanol o ran cyflenwi swyddi digidol heb fod yn uniongyrchol fel cymorth a gweinyddu, i recriwtio hanfodol sy'n seiliedig ar gynnyrch. Roedd y gwahaniaethau yn y dull recriwtio yn dibynnu ar y maes busnes, er mwyn cydbwysu cryfhau yn erbyn effeithlonrwydd;</p> <p>Cynyddodd nifer y staff o 1078 i 1206, sef cynnydd o 12% eleni;</p> <p>O ran y Cyfrifon Blyneddol, mae'r gwersi a nodwyd y llynedd wedi effeithio ar ddull eleni, ac wedi'i lywio. Cyfarfu'r tîm cyllid ag Archwilio Cymru i amlinellu cynnydd gweladwy ac adrodd er mwyn nodi unrhyw faterion a chynllunio dull i ddatrys o'r ddwy ochr gyda llai o effaith;</p> <p>Wrth edrych ymlaen, nodwyd y canlynol:</p> <p>Gallai'r model ariannu cynaliadwy sydd wedi'i gynnwys o dan gyfleoedd ariannol yn yr adroddiad hefyd gael ei adlewyrchu yn y maes risg allweddol;</p> <p>Roedd angen llwybr tyngedfennol i gyflawni agwedd IGDC o ran y model gweithredu newydd, meddwl ariannol tymor hwy a llywio cynllun strategol;</p> <p>Fel grŵp, gan gynnwys LLC, roedd yn dod yn gliriach ond roedd angen dangos gwerth ac effaith, er mwyn deall dull ariannu cynaliadwy.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN a THRAFOD yr Adroddiad Cyllid.</p>		
4.3	<p>CTCI 2024-27</p> <p>Cyflwynodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (IE), yr adroddiad ar gynnydd y CTCI gan nodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dyddiad cau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno yw 29 Mawrth 2024, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd AIA; Mae adolygiad o'r prif gyflawniadau wedi bod yn broses 	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

barhaus gyda'r tîm Gweithredol, y Grŵp Cynllunio a Rheoli Perfformiad (PPMG), Arweinwyr Portffolio a pherchnogion cerrig milltir ac adnoddau rhwng mis Hydref 2023 a mis Chwefror 2024. Bu ymgysylltu parhaus hefyd â rhanddeiliaid, sy'n cynnwys cynllunio ar y cyd â phartneriaid gweithredu o sefydliadau eraill y GIG. Mae'r ddogfen derfynol hon yn benllanw'r ymarfer.

- Cyllid wedi'i Gadarnhau. Mae Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Craidd, Gofal COVID a Gofal Sylfaenol 2024/25 bellach wedi'i gadarnhau'n ffurfiol. Mae'r cynllun dros dro yn gyson â thybjaethau egwyddor cynllunio cyhoeddedig sy'n ymgorffori cynnydd a ragwelir o 3.67% yng nghyllid Llywodraeth Cymru a CLG.
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth Mae IGDC wedi cwblhau sesiynau 1-1 manwl gyda sefydliadau sy'n darparu tryloywder ynghylch cynnydd mewn costau a'r pwysau ariannol a wyneb. Mae'r ymarfer wedi'i groesawu ac mae disgwyl i bob sefydliad lofnodi Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn ffurfiol ym mis Mawrth.
- Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF) Yn dilyn trafodaethau trwy fis Chwefror, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyfanswm rheoledig o £28m ar gyfer rhaglenni cenedlaethol a ariennir gan y DPIF. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol yn erbyn y cyllid a ragwelir o £36.4m (yn seiliedig ar yr ohebiaeth ariannu a dderbyniwyd, ac ar gyllid a nodwyd drwy drafodaethau rheolaidd â Llywodraeth Cymru).
- Bydd y gostyngiad mewn cyllid, a gadarnhawyd yn hwyr ym mhroses gynllunio IGDC, yn cael effaith ar gynlluniau cyflawni'r CTCL, ar gynlluniau cyflawni rhaglenni, ac ar gynlluniau cyflawni partneriaid. Mae IGDC wedi adlewyrchu hyn yn ein cynlluniau cyflawni ar lefel CTCL ond bydd angen gweithio drwy'r effaith hon yn fanwl gan ddefnyddio'r broses sefydledig o reoli newid ar y lefel cerrig milltir yn y Cynllun Busnes Blynnyddol.

Gweithgareddau Sicrwydd

Mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u cynnal i roi sicrwydd i'r Bwrdd AIA ynghylch proses ddatblygu'r CTCL:

- Hydref 2023. Gweithdai ar gyfer 14 Portffolio i ddatblygu cynlluniau cyflawni â blaenoriaeth
- Rhagfyr 2023. Gweithdy cyfarwyddwyr gweithredol a man gwirio yn ailgadarnhau ymagwedd a blaenoriaethau
- Ionawr 2024. Cerrig milltir cyflawni mawr wedi'u diffinio. Ymrwymadau allweddol a rennir yn Sesiwn Datblygu Bwrdd AIA fis Ionawr
- Chwefror 2024. Adolygiad o brif amcanion ac amserlenni yn y CTCL a'u haliniad i strategaeth newydd IGDC mewn Sesiwn Datblygu Bwrdd.
- Ion/Chwe/Maw 2024. Mae ymarfer sicrwydd cynllunio mewnol wedi'i gynnal i brofi'r canlynol:

- CTCI / Strategaeth. A yw mapiau ffordd CTCI yn gwneud cynnydd tuag at amcanion strategol IGDC ar gyfer 2030, o ystyried cyfnod y CTCI hwn a fydd yn mynd â ni 50% o'r ffordd yno.
- Mapiau Ffyrdd > Cerrig Milltir. A oes gan bob map ffordd CTCI gerrig milltir manwl yng Nghynllun Busnes blynyddol 2024-2025, gan mai dyma'r lefel y mae perfformiad yn erbyn y cynllun yn digwydd arni. Bydd cerrig milltir yn cael eu monitro'n ffurfiol drwy gydol y flwyddyn.
- Blaenoriaethu Cerrig Milltir. A yw cerrig milltir Cynllun Busnes yn cysylltu ag amcan CTCI. Cynhelir ymarfer mapio fel rhan o'r cylch cynllunio sy'n cynnwys pennu lefel flaenoriaeth i bob carreg filltir, gyda cherrig milltir sy'n gysylltiedig â mapiau ffordd CTCI yn cael y flaenoriaeth uchaf. Mae hyn yn caniatáu ailasesiad o aseiniu capasiti yn ystod y flwyddyn.
- Cario Cerrig Milltir Drosodd. Beth yw maint yr ansicrwydd ynghylch y cerrig milltir sy'n weddill eleni – a fydd angen cario unrhyw gerrig milltir drosodd o 2023/24 i 2024/25?
- Capasiti. A oes gennym ni'r capasiti i gyflawni'r cynllun. Cynhaliwyd sesiynau ar gyfer perchnogion cerrig milltir i drafod cynlluniau gyda dros 30 o berchnogion adnoddau yn ystod Chwefror 2024. Mae hyn yn caniatáu i ofynion gael eu trafod ac i berchnogion adnoddau amlygu unrhyw risgiau o ran capasiti.
- Blaenoriaethau rhanddeiliaid. A yw ein blaenoriaethau yn cysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd. Mae cynlluniau tair blynedd ar y cyd â Byrddau Iechyd wedi'u rhannu yn ystod y flwyddyn ac mae'r CTCI yn cynnwys prosiectau sydd ar y gweill lle gofynnwyd am feysydd gwaith mawr newydd ond heb eu cadarnhau. Mae blaenoriaethau gweinidogol yn yrwyr sy'n cael sylw ym mhob amserlen portffolio.

Gyda'r materion a ganlyn wedi'u codi i'w hystyried:

- Cyllid CTCI – Os na chaiff y cyllid a ragwelir ei gadarnhau (gan Lywodraeth Cymru a/neu gan sefydliadau'r GIG drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth) yna bydd y costau ymrwymedig ac anochel yn dod yn bwysau costau sefydliadol gan arwain at sefyllfa gorwariant diwedd blwyddyn a ragwelir.
- Rheoli Newid – mae'r cyfanswm rheoledig ar gyfer cyllid DPIF yn sylweddol yn llai na'r disgwyl (£8.4m). Adlewyrchir hyn yn y CTCI drwy'r arwydd glas/melyn rheolaidd sy'n nodi a yw adnoddau wedi'u cadarnhau, ond ni fu digon o amser i weithio drwy effaith llai o gyllid i lawr i lefel Cerrig Milltir. Mae ein dull o reoli'r newidiadau hyn wedi'i nodi yn y CTCI.

Sicrwydd i'n rhanddeiliaid ein bod yn ymgysylltu â'r cyfyngiadau adnoddau.

Bydd llythyr i LLC yn nodi goblygiadau'r cyfyngiadau ariannu ar gyfer peidio â chyflawni a'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu

	<p>gwneud;</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO CTCI 2024-27</p>		
4.4	<p>Diweddariad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p> <p>Cyflwynodd Sarah-Jane Taylor, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol (SJ), y diweddariad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan nodi bod yr adroddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> yn rhoi'r sicrwydd bod y camau gweithredu a'r ymrwymiad yn y CCS yn cael eu symud ymlaen i'r cynllun. yn amlygu gwerth parhaus Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sefydledig ac ymgysylltiedig i'r sefydliad wrth gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. y camau nesaf a'r gweithgaredd arfaethedig yn chwarter 1 a 2 2024-25. <p>Y risg allweddol yw'r angen i sicrhau cyllid hirdymor i gadarnhau'r Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n arwain yr ymrwymadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sefydliadol ac yn gweithio'n agos gydag amrywiol weithgorau cydraddoldeb ac allgymorth Cymru gyfan.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodwyd y gwaith ychwanegol a wnaed fel a ganlyn: Diwrnod talent newydd i weithwyr bandiau 3-5; Cael ardystiad ISO mewn Amrywiaeth a Chynhwysiant; Trafodaethau 'Tentalks' ar gydraddoldeb ac amrywiaeth; Ymgorffori arferion a pholisïau; Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Datgelodd arolwg staff fod yr agenda iechyd a lles wedi'i chysylltu'n agos iawn â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda nifer o fentrau ar waith i weithio'n fwy call; Rhaglen drawsnewid i fod i ddechrau gyrru ymddygiadau, y cenadaethau, a chydweithio, ochr yn ochr â pharhau i ddatblygu talent. <p>Yn ogystal, nodwyd:</p> <p>Bydd digwyddiad Rhwydwaith Staff GIG Cymru Gyfan ym mis Mai yn rhoi cyfle i edrych ar arfer gorau, rhannu pryderon a rhwystrau, ac o bosibl ddod â rhai ffyrdd newydd o feddwl yn ôl y gellid eu hymgorffori yn y dyfodol;</p> <p>Mae newid sefydliadol a datblygiad pobl wedi bod yn gadarnhaol iawn i'r gweithlu presennol gan gynnwys y dull strategol o recriwtio.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Diweddariad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

<p>4.5</p>	<p>Diweddariad ar Gynhwysiant Digidol</p> <p>Rhoddodd Helen Thomas, Prif Swyddog Gweithredol (HT), y mewnwelediad a ganlyn o'r adroddiad:</p> <p>Yn 2022, llofnododd IGDC y Siarter Cynhwysiant Digidol gydag ymrwymiad yn erbyn chwe addewid. Roedd IGDC eisoes yn gwneud gwaith i gefnogi'r maes hwn, gyda rhai arferion da wedi'u nodi, ond yn aml nid oedd yn amlwg neu'n digwydd ar ei ben ei hun. Roeddem yn awyddus i gyflwyno fframwaith ar gyfer dull gweithredu cyson a chydgyssylltiedig.</p> <p>Yn 2023 sefydlwyd Gweithgor Cynhwysiant Digidol IGDC i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei wreiddio ar draws IGDC, a thrwy nodi cyfleoedd a dysgu parhaus. Trwy Gynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol IGDC mae IGDC wedi ceisio dod â gweithgareddau ynghyd, gan greu gwelededd o dan un ymbarél, a diffinio mesurau ac adroddiadau i asesu cynnydd. Mae'r cynllun gweithredu yn categoreiddio gweithgareddau i'r meysydd isod, gyda rhai yn fwy datblygedig nag eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwreiddio ar draws IGDC • Grymuso cymunedau • Grymuso cleifion a'r cyhoedd • Sicrhau hygyrchedd • Datblygu sgiliau'r dyfodol • Gweithio mewn partneriaeth <p>Roedd gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill yn hanfodol i gefnogi'r agenda hon ac mae'r cynllun gweithredu yn rhoi pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth.</p> <p>Gweithgareddau yn y dyfodol</p> <p>Ochr yn ochr â datblygu'r meysydd uchod, mae IGDC wedi comisiynu Cwmpass i gynnal adolygiad Cynhwysiant Digidol gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i helpu IGDC i ddeall a mynd i'r afael â'r amcanion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu – beth yw'r dulliau gorau o ymgysylltu â lleisiau na chlywir yn aml fel y gellir adeiladu perthnasoedd o ymddiriedaeth i rannu pŵer a chyfrifoldeb a chymryd rhan yn effeithlon mewn darnau o waith a nodwyd yn y dyfodol sy'n ymwneud ag iechyd digidol. • Ecosystemau – nodi mapio'r ecosystemau i alluogi dinasyddion a chlinigwyr i gymryd rhan yn natblygiad gwasanaethau iechyd digidol yng Nghymru yn y dyfodol. • Rhwydweithiau – sut i roi lleisiau dinasyddion a chlinigwyr yn gyntaf drwy ddatblygu rhwydweithiau ar gyfer cyfranogiad sy'n gweithredu ar draws seilos a nodwyd. • Ariannu – beth yw'r argymhellion ar gyfer cyllid parhaus sydd ei angen i ddatblygu systemau iechyd 	<p>Nodwyd</p>	<p>Dim i'w nodi</p>
------------	---	---------------	---------------------

	<p>digidol sy'n cael eu cydgyhyrchu gyda dinasyddion ac sy'n diwallu eu hanghenion.</p> <p>Hyrwyddo ein gwaith</p> <p>Bydd IGDC yn ceisio hyrwyddo Gweithgor Cynhwysiant Digidol IGDC ymhellach ac annog cyfleoedd i staff gefnogi'r agenda hon.</p> <p>Gwnaed y sylwadau canlynol:</p> <p>Roedd cael gweledigaeth glir ar gyfer rôl IGDC o fewn yr agenda Cynhwysiant Digidol yn hanfodol i sicrhau bod ymdrechion yn cael eu canolbwyntio yn y ffordd gywir wrth weithio gyda phartneriaid;</p> <p>Nodwyd pwysigrwydd y gwaith parhaus o ran ymgysylltu i gyrraedd y grwpiau mwyaf ymylol o fewn y grwpiau cymunedol.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI'R Diweddariad Cynhwysiant Digidol.</p>		
4.6	<p>Adroddiad Caffael Strategol</p> <p>Nododd COL o Gaffael 1 Mawrth 2024 a drosglwyddwyd yn ffurfiol i Gyfarwyddiaeth yr FBA. Cyflwynodd COL yr adroddiad gyda'r Dyfarniad Contract a'r Memorandwm Dealltwriaeth a ganlyn, y ddau wedi'u cyflwyno i'w hystyried gan y Bwrdd i'w cymeradwyo:</p> <p>(i) P879 Cytundeb Fframwaith Partner Darparu Cynnyrch Ystwyth (Darganfod, Datblygu, Defnyddio).</p> <p>Contractwr: Kainos</p> <p>Cyfnod: 01 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2028</p> <p>Gwerth: Cyfanswm Gwerth y Contract gan gynnwys yr opsiynau estyniad yw £20,000,000.00 (heb gynnwys TAW)</p> <p>Cais am Gymeradwyaeth: Dyfarnu'r Contract</p> <p>Nid yw'r Cytundeb Fframwaith yn ymrwymo IGDC i unrhyw wariant a bydd unrhyw ymrwymiad ariannol ond yn cael ei wneud yn dilyn proses yn ôl y gofyn.</p> <p>Sylwch y dylai pob trefniant yn ôl y gofyn fod yn unol â'r cwmpas a'r weithdrefn yn ôl y gofyn o dan y Cytundeb Fframwaith.</p> <p>Bydd y Cytundeb Fframwaith yn cael ei ategu gan Delerau ac Amodau Safonol GIG Cymru ar gyfer Gwasanaethau v4 2023.</p> <p>Yn ogystal,</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Mae'r caffael wedi'i wneud yn unol â gofynion SFIs, gan gynnwys PCR2015, fel y sicrhawyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Masnachol. b) Mae tîm gwerthuso IGDC, sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc allweddol, wedi cymeradwyo'r dull caffael, gan gynnwys y prosesau dethol a gwerthuso a chanlyniad y dyfarniad, fel y sicrhawyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth. c) Nid yw'r Cytundeb Fframwaith yn ymrwymo IGDC i 	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

unrhyw wariant a dim ond ar ôl i gytundeb yn ôl y gofyn gael ei wneud y bydd unrhyw ymrwymiad i wariant yn cael ei wneud.

- d) Rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru yn unol â'r Rheolau Sefydlog am fwriad IGDC i wneud y Cytundeb hwn.

Gwnaed yr arsylwadau canlynol:

Darparu manylion esboniadol o beth yw fframwaith a sut mae'n cael ei ddefnyddio o ran darparu gwybodaeth i'r cyhoedd er mwyn deall sut mae'n gweithio.

(ii) P642.19C System Imiwneiddio Cymru ("WIS") – Rhaglen Frechu i gefnogi Covid-19

Contractwr: Swyddfa'r Cabinet

Cyfnod: 01 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Gwerth: Cyfanswm Gwerth y Contract yw £2,500,000.00 (heb gynnwys TAW)

Cais am Gymeradwyaeth: Cymeradwyaeth y Memorandwm Dealltwriaeth

Mae cyllid o £2.5m wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i IGDC er mwyn parhau â'r ddarpariaeth negeseuon gan GOV.UK. Hysbysu o fis Ebrill 2024 ac ar y sail honno y gwneir y papur hwn. Sylwch y codir tâl ar yr Awdurdod ar sail defnydd.

Cydymffurfiwyd â'r Rheoliadau Caffael fel y nodir isod:

Nid oedd angen gwneud unrhyw gaffael cystadleuol yn yr achos hwn am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth yn Gontract Cydweithredu lle mae Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) fel corff prynu canolog (fel y'i diffinnir yn rheoliad 37(10)(a) o'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (PCR2015)) yn caffael gwasanaethau i bob Cwsmer ar draws y Sector Cyhoeddus.
- Mae'r GDS yn caffael gwasanaethau negeseuon (gan gynnwys negeseuon SMS ac e-byst) gan gyflenwyr yn y sector preifat, yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Rheoliadau 37(8) a 37(4) 37(10)(a):
 - o Caffael cyflenwadau neu wasanaethau, neu'r ddau, a fwriedir ar gyfer awdurdodau contractio;
 - o dyfarnu contractau cyhoeddus neu gwblhau cytundebau fframwaith ar gyfer gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau a fwriedir ar gyfer awdurdodau contractio.

Yn ogystal,

- a) Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth yn cynnwys Cytundeb Prosesu Data a Chyllid i'w ddefnyddio o GOV.UK Notify. Nid yw'r Cytundeb Prosesu Data yn gontract ar gyfer caffael gwasanaethau, ac felly mae'n disgyn y tu allan i'r diffiniad o "gaffael" yn rheoliad 2 o Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae'r cytundeb hwn yn gyfrwng

	<p>cyfreithiol i GDS wneud yr ymrwymiadau sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth berthnasol y Ddeddf Diogelu Data a'r GDPR/Deddf Diogelu Data 2018, ac unrhyw gyfreithiau gweithredu cenedlaethol cymwys fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd sy'n ymwneud â Phrosesu data personol a phreifatrwydd sy'n ofynnol gan brosesydd data. Nid yw'n cynnwys unrhyw rwymedigaeth i GDS ddarparu'r gwasanaethau hynny. O ganlyniad, mae'r cytundeb hwn y tu allan i gwmpas Rhan 2 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, fel y nodir yn rheoliad 3 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ac nid oes angen unrhyw gystadleuaeth caffael i ymrwymo i'r cytundeb hwn â GDS gan y Pennaeth Gwasanaethau Masnachol.</p> <p>b) O ganlyniad, nid oes angen unrhyw gystadleuaeth caffael i brynu'r gwasanaethau negeseuon hyn gan GDS, oherwydd bod GDS yn gweithredu fel corff prynu canolog ar gyfer y gweithgaredd hwn, fel y sicrhawyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Masnachol.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO'R Adroddiad Caffael Strategol, sy'n cynnwys yr un Dyfarniad Contract ac un Memorandwm Dealltwriaeth a nodir uchod.</p>		
--	--	--	--

RHAN 5 – LLYWODRAETHU, RISG, PERFFORMIAD A SICRWYDD

5.1	<p>Asesiad Strwythuredig 2023 ac Adroddiad Archwilio Blynnyddol 2023</p> <p>Ymunodd Darren Griffiths a Nathan Couch o Archwilio Cymru i gyflwyno canfyddiadau Asesiad Strwythuredig 2023 ac i nodi Adroddiad Archwilio Blynnyddol 2023.</p> <p>Yn gyffredinol, canfu Archwilio Cymru fod trefniadau rheoli llywodraethu corfforaethol, sicrwydd, cynllunio ac ariannol IGDC yn gyffredinol dda gyda rhai cyfleoedd i'w cryfhau ymhellach. Fodd bynnag, mae IGDC yn wynebu risgiau sylweddol o ran adnoddau, ariannol a buddsoddi y bydd angen eu rheoli'n ofalus i sicrhau ei fod yn cyflawni blaenoriaethau uniongyrchol ac amcanion tymor hwy, tra'n parhau i fod yn ariannol gynaliadwy.</p> <p>I gefnogi hyn, canfu Archwilio Cymru fod gan IGDC:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fwrdd sefydlog a chydlynol sy'n cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, erys cyfleoedd i wella rhai trefniadau ymhellach. • Mae systemau sicrwydd yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol, ond mae cyfleoedd i wella rhai o'r trefniadau hyn ymhellach. • Mae trefniadau cynllunio yn parhau i aeddfedu ond erys cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau cyflawni ategol manwl ar gyfer rhai cynlluniau corfforaethol a strategaethau i gefnogi monitro a throsolwg effeithiol. Mae IGDC yn wynebu risgiau sylweddol o ran adnoddau a buddsoddi a allai effeithio ar gyflawni ei flaenoriaethau strategol a thrawsnewidiol allweddol. 	Derbyniwyd er Sicrwydd a Nodwyd	Dim i'w nodi
-----	---	---------------------------------	--------------

	<ul style="list-style-type: none"> Mae IGDC yn parhau i fod ag ymagwedd gyffredinol effeithiol at gynllunio, monitro ac adrodd ariannol. Fodd bynnag, gallai heriau ariannol cynyddol a gorddibyniaeth ar arbedion anghylchol effeithio ar ei gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. <p>Cododd Asesiad Strwythuredig 2023 bum argymhelliad. Mae'r rhain wedi'u derbyn gan reolwyr, gyda chymau gweithredu a dyddiadau gweithredu priodol.</p> <p>Gwnaed yr arsylwadau canlynol:</p> <p>Arbedion ac effeithlonrwydd hirdymor, yn gysylltiedig yn uniongyrchol â symudiad IGDC i gynnyrch a chwmwl, gan nodi y bydd angen buddsoddiad cyfochrog ar y rhaglen drawsnewid. Yn gyffredinol, mae Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad dyfnach ar drefniadau ariannol;</p> <p>Cyllid / CTCL – model hirdymor a goblygiadau ariannol, gyda model arbedion posibl nad ydynt yn ymwneud â chyflogres a allai effeithio ar hyn, o ran cenhadaeth 5 ac arbedion hirdymor;</p> <p>Elw ar fuddsoddiad, i gynnwys buddion system ac arbedion rheolaidd posibl gan IGDC, gan nodi newidiadau gweithlu a all gynhyrchu arbedion;</p> <p>Bwrdd cydlynol sefydlog, amseroedd heriol ac amgylchedd cymhleth, felly ni all IGDC fod yn hunanfodlon;</p> <p>Andrew Daughton fydd y Rheolwr Archwilio newydd o hyn ymlaen;</p> <p>Asesiad teg, gonest, cadarnhaol ar y cyfan, gydag argymhellion ar gyfer ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a chleifion Cymru;</p> <p>Mae Simon Jones, Cadeirydd IGDC, wedi camu i lawr fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni fel yr argymhellwyd.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN Asesiad Strwythuredig 2023 er SICRWYDD, a NODI Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023.</p>		
5.2	<p>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p> <p>Nododd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD), y canlynol o adroddiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Wrth ystyried ffactorau amgylcheddol a rhyngwladol dylai aelodau nodi Adroddiad Risgiau Byd-eang Fforwm Economaidd y Byd 2024. Mae'r adroddiad yn ystyried risg o safbwynt rhyngwladol ac yn amlygu nifer o feysydd hynod berthnasol i'w hystyried gan IGDC, a fydd yn cael eu trafod gan aelodau'r Bwrdd yn Niwrnod Datblygu'r Bwrdd a gynhelir ym mis Ebrill 2024. Mae'r isod yn feysydd allweddol o Dirwedd Risgiau Byd-eang Term Fforwm Economaidd y Byd (2024) er cydestun ac i'w hystyried gan y Bwrdd: <ul style="list-style-type: none"> Seiber ansicrwydd Camwybodaeth 	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Canlyniadau andwyol technolegau Deallusrwydd Artiffisial ● Cyhoeddwyd Cofrestr Risg Genedlaethol Llywodraeth EF ym mis Awst 2023, sy'n cynnwys adran ar system seiber-ymosodiad: iechyd a gofal. Bydd dysgu o'r adroddiad hwn yn amodol ar sesiwn Datblygu'r Bwrdd a gynlluniwyd ar gyfer mis Ebrill 2024. ● Mae 16 o risgiau ar y Gofrestr ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg Gorfforaethol IGDC. Mae 5 risg breifat, gyda 4 ohonynt i'w hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ac 1 i'w hystyried yn y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni. <p>Ers y cyfarfod diwethaf, ychwanegwyd y risg newydd ganlynol at y gofrestr:</p> <p>DHCW0334 - Effaith cost y tîm pontio</p> <p>OS oes oedi cyn gweithredu tîm cynnyrch Ap mewnol newydd GIG Cymru YNA bydd angen i'r Rhaglen DSPP gefnogi cyfnod estynedig o 'redeg deuol' SY'N ARWAIN AT lai o arian sydd ar gael i gomisiynu gwaith gan y partner darparu allanol.</p> <p>Dilëwyd 3 risg gyhoeddus ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ac amlygwyd y canlynol yn erbyn risgiau eraill;</p> <p>DHCW0332 – Cyllid rhaglen gynaliadwy, lleihau DPIF (1 risg drosfwaol). Roedd gwaith wedi'i gwblhau ar gyfer SRG gan y tîm Cyllid gan nodi bod contractau parhaol nad ydynt yn rhan o'r gyllideb graidd, heb unrhyw gyllid, yn cael eu monitro a chytunwyd ar broses i leihau atebolrwydd. Roedd hyn hefyd yn cael ei gydbwyso â'r angen am set sgiliau strategol.</p> <p>DHCW0333 – System Gofal Dwys WICIS – ceisir sicrwydd ynghylch dyddiadau mynd yn fyw gyda Byrddau Iechyd am ymrwymiad diamod i'w defnyddio ar ddyddiad penodol.</p> <p>DHCW0331 – Ap GIG Cymru – integreiddio yn cael ei symud i dîm mewnol, er mwyn cefnogi dull cynnyrch o weithio, a ddylai fod yn ei le erbyn diwedd mis Medi. Roedd cyllid yn dod o fewn y rhaglen.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN a THRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p>		
5.3	<p>Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig</p> <p>Cyflwynodd COL yr Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig gan nodi bod gwaith sylweddol wedi bod mewn rhaglenni;</p> <p>Bu arbedion effeithlonrwydd o ran cyflwyno brechiad atgyfnerthu COVID y gwanwyn yn ddigidol ac roedd gwaith i symud i'r ganolfan ddata newydd yn mynd rhagddo. Mae'r rhan fwyaf o symudiadau wedi'u hamserlennu i'w cwblhau cyn diwedd y flwyddyn; fodd bynnag, nodwyd bod disgwyl i rwydweithio bellach gael ei gwblhau y flwyddyn nesaf.</p> <p>Gweithrediadau</p> <p>Mae un dangosydd sy'n GOCH, ac mae hyn yn ymwneud â</p>	Derbyniwyd a Thrafodwyd	Dim i'w nodi

Chyflenwi Gwasanaethau Gweithredol. Mae IGDC wedi parhau i brofi aflonyddwch o ganlyniad i drawsnewid y Ganolfan Ddata, sydd wedi effeithio ar rwydweithio ar draws yr ystâd ac sydd bellach ar lwybr hollbwysig. Bydd symudiad y Ganolfan Ddata yn digwydd eleni, fodd bynnag, bydd rhwydweithio a datgomisiynu yn cael eu hymestyn i chwarter 1 y flwyddyn nesaf. Mae IGDC yn nodi effeithiau hyn ar gynllun y flwyddyn nesaf. Mae gwaith gwella ychwanegol ar storio disgiau wedi'i wneud. Mae nifer o faterion rhwydwaith wedi'u nodi ac mae adolygiad cynhwysfawr wedi'i drefnu ym mis Mawrth gan bartner cymorth y rhwydwaith. Yn ogystal, mae gwariant nas rhagwelwyd wedi'i nodi ar galedwedd Profi Pwynt Gofal Cymru (WPoCT).

Profodd IGDC 6 digwyddiad TG mawr yn ystod Ionawr 2024 a 5 ym mis Chwefror 2024, ac nid oedd yr un ohonynt yn torri'r targed datrys y cytunwyd arno.

Roedd IGDC yn sicrhau argaeledd o 99.983% y flwyddyn hyd yma. Fodd bynnag, ni chyflawnodd IGDC y targed Datrys Digwyddiad o 95% (gwir 94%) ar gyfer gwasanaethau cenedlaethol hanfodol oherwydd gwasanaeth newydd sydd wedi'i gyflwyno, a chynhaliwyd hyfforddiant ychwanegol ers hynny.

Rhaglenni Strategol

Ymunodd Ap GIG Cymru â 116 o bractisau ym mis Chwefror, fodd bynnag, mae IGDC wedi derbyn cwynion ac ymholiadau ynghylch yr ap tra oedd yng nghyfnod beta cyhoeddus. Mae'r Ddesg Wasanaeth hefyd wedi derbyn tocynnau cymorth. Mae trafodaethau'n parhau drwy gydol mis Mawrth 2024 i gytuno ar drefniant cymorth ffurfiol. Mae nifer y galwadau sy'n ymwneud â'r Ap wedi lleihau ym mis Chwefror gan adlewyrchu'r gwaith mewnlol i fynd i'r afael â phryderon allweddol cychwynol.

Mae rhaglen System Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru (WICIS) hefyd wedi nodi bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda Byrddau Iechyd i ddeall y gofynion yn llawn a gweithio tuag at ddull mabwysiadu 'Cymru Gyfan'. Mae Byrddau Iechyd wedi nodi pryd y byddant yn ceisio gweithredu'r system gyda rhybuddion ynghylch diffygion a defnyddioldeb y system.

Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl

Rhodddwyd gwybod i IGDC yn ffurfiol ym mis Ionawr 2024 na fydd un o gyflenwyr Systemau Meddygon Teulu yn bwrw ymlaen â Gorchmynion Defnyddio ar gyfer y contract System Meddygon Teulu nesaf ac y bydd yn tynnu gwasanaethau yng Nghymru yn ôl. Mae tynnu'n ôl yn golygu y bydd angen nifer o fudiadau i'r system amgen yn awr. Bydd gwaith ychwanegol i fudo'r practisau meddygon teulu a goblygiadau ariannol dilynol ac effaith ar staff a rhaglenni gwaith IGDC sydd wedi'u cynnwys yn y CTCL.

Mae'r gwaith o gynllunio a darganfod ar gyfer gosod plattform newydd ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn parhau i fynd rhagddo. Mae gwelliannau ailadroddus parhaus i'r plattform presennol yn parhau i fod yn heriol er bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae'r rhaglen ar hyn o bryd yn rhagweld gorwariant wrth i ni gynnal y rhaglen Cysylltu Gofal

	<p>heb unrhyw ddyraniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (LLC) ac mae'r amserlenni'n parhau i fod yn heriol.</p> <p>Rhyddhawyd meddalwedd atgyfnerthu COVID y gwanwyn ac uwchraddiadau carfan yn llwyddiannus ym mis Chwefror, yn System Imiwneiddio Cymru, gan ei wneud y cyflwyniad cyflymaf hyd yma, gan gymryd 20 diwrnod gwaith. Cyflwynwyd yr holl newidiadau gofynnol hefyd cyn i wahoddiadau gael eu hanfon ar 1 Mawrth.</p> <p>Cyllid a Sicrwydd Busnes</p> <p>Mae'r Adran Gyllid yn cwblhau'r sefyllfa eleni a'r dyraniad cyllid ar gyfer 2024/25. Mae'r tîm masnachol wedi bod yn gweithio ar effaith yr opsiynau caffael ar y galedwedd sy'n cefnogi WPoCT gyda'r timau gweithrediadau ac mae gwaith ar y CLGau gyda GIG Lloegr yn flaenoriaeth.</p> <p>Pobl a Datblygu Sefydliadol</p> <p>Bu gwelliant o ran salwch byrdymor a hirdymor. Dylid nodi, o'r uchafbwynt ym mis Rhagfyr 2023, mai dyma'r ail fis i ni weld gostyngiad mewn cydymffurfiaeth arfarnu, dim ond cyrraedd y targed o 85%. Roedd gwaith parhaus gyda Chyfarwyddiaethau yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn.</p> <p>Sicrwydd Clinigol a Llywodraethu Gwybodaeth</p> <p>Ym mis Chwefror 2024, gwelodd IGDC y lefel uchaf o geisiadau rhyddid gwybodaeth eleni, sef 10 ac ar hyn o bryd mae 5 digwyddiad clinigol heb eu datrys yn cael eu cario drosodd.</p> <p>Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn dangos y bydd yr holl dargedau statudol yn cael eu cyflawni. Roedd IGDC yn derbyn ei ddyraniad cyllid ar gyfer 2024/25, er bod y Cyllid Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol wedi'i ostwng i £28m. Mae'r gostyngiad yn arwain at bryder ynghylch cynhwysiant a phroffil rhai o'n rhaglenni ar gyfer 2024/25.</p> <p>O ran sylwadau, nodwyd:</p> <p>Nid oedd y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i gyd ar gyfer un maes, gyda rhai ceisiadau Llywodraethu Gwybodaeth cymhleth;</p> <p>Nid oedd y broses gyflym o ymuno practisau meddygon teulu ag Ap GIG Cymru heb ei phroblemau;</p> <p>NDR – adnoddau clinigol (WCP) bellach ar gael ar-lein;</p> <p>e-Ragnodi yn cael ei weithredu'n llwyddiannus mewn practis yn y Rhyl;</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN a THRAFOD yr Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig</p>		
5.4	<p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni</p> <p>Nodwyd y 4 rhybudd a ganlyn o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Gwybodeg Canser - Ni chafwyd cadarnhad ffurfiol o'r cyllid a sicrhawyd, felly roedd ansicrwydd ynghylch cyllid y tu hwnt i fis Mawrth 2024. 		

	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Digidol Gofal Llygaid - Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod IGDC wedi datblygu cynnig buddsoddi digidol ar gyfer gofal llygaid a fyddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd IGDC wedi gofyn am archwiliad mewnol ychwanegol ar lywodraethu Gofal Llygaid ers trosglwyddo i IGDC a byddai canfyddiadau'r archwiliad hwn ar gael. Nododd y Pwyllgor hefyd fod bwriad i gyflwyno Microsoft 365 ar gyfer Offthalmoleg erbyn mis Awst 2024. • System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru - Nid aeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) yn fyw gyda'r system fel y cynlluniwyd ym mis Tachwedd 2023. Fodd bynnag, mae BIPAB bellach wedi cwblhau profion ac roedd asesiad o amserlen i fireinio'r system i'w werthuso ac roedd angen cytuno ar gynllun gweithredu a'i roi ar waith. • Gweinyddiaeth Cleifion Cymru WPAS (Rhaglen Bontio Pen-y-bont ar Ogwr) - Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod hon yn rhaglen mudo data gymhleth, a oedd yn gofyn am symud nifer fawr o gofnodion rhwng systemau, yn cynnwys rhanddeiliaid lluosog ac yn effeithio ar nifer fawr o wasanaethau integredig. Mae risgiau i gostau cyflawni a llinellau amser yn rhan annatod o'r rhaglen hon, a hefyd i berfformiad gwasanaethau, sy'n cael eu rheoli'n agos drwy'r rhaglen. <p>Ac yn y sesiwn breifat:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bu'r Pwyllgor yn trafod yn fanwl statws presennol y rhaglenni a ganlyn, nad oedd modd eu trafod mewn sesiwn gyhoeddus oherwydd sensitifrwydd masnachol. <ul style="list-style-type: none"> ○ Rhaglen Digidol Gofal Llygaid ○ Rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru ○ System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI'R Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni</p>		
5.5	<p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Nodwyd y canlynol o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2024.</p> <p>Un Rhybudd: Diffyg cydymffurfio â Chyfarwyddyd Ariannol Sefydlog. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd at gais a wnaed gan y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau i'r Gwasanaethau Masnachol i gymeradwyo pecyn gwaith ôl-weithredol.</p> <p>Ac yn gyffredinol, i nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwiliad Dwfn i Uwchgyfeiriadau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (Cenhadaeth Strategol 5) Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd archwiliad dwfn i'r gweithlu a nododd y cynnydd hyd yma ar yr ymrwymïadau a 		

	<p>lliniaru'r brif risg drosfwaol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad yr Iaith Gymraeg. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad yr Iaith Gymraeg er sicrwydd a nododd y cynnydd yn nifer y swyddi cyfrwng Cymraeg dynodedig. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y gwaith sydd ar y gweill ar yr Asesiad Iaith Gymraeg o Ddisgrifiadau Swydd. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.</p>		
5.6	<p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol</p> <p>Nid oedd unrhyw uwchgyfeirio y tro hwn i'r Bwrdd ers cyfarfod diwethaf y Fforwm a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2024.</p> <p>Amlygwyd y gwaith da ynghylch WASPI gyda chyllid wedi'i sicrhau i'w droi'n God Ymarfer.</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.</p>		
5.7	<p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Fforwm Partneriaeth Lleol</p> <p>Nid oedd unrhyw uwchgyfeirio y tro hwn i'r Bwrdd ers cyfarfod diwethaf y Fforwm a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2024.</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Blynyddol y Grŵp Cynghori <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Fforwm Partneriaeth Leol ac Adroddiad Blynyddol y Grŵp Ymgynghorol.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
5.8	<p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau Tâl a Thelerau Gwasanaeth</p> <p>Nodwyd y canlynol o gyfarfodydd diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 a 22 Chwefror 2024.</p> <p>Un Rhybudd: rhwystredigaeth ynglŷn â thelerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid nad oedd yn cydnabod rôl unigryw staff digidol a'r angen i sicrhau bod trefniadau goramser uwch staff ar waith.</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.</p>		
RHAN 6 - MATERION I GLOI			
6.1	Unrhyw Faterion Brys Eraill	Trafodwyd	Dim i'w

	Ni chodwyd unrhyw fater brys arall.		nodi
6.2	Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf <ul style="list-style-type: none"> Dydd Iau 30 Mai 2024 Daeth y cyfarfod i ben am 13:50	Nodwyd	Dim i'w nodi